



FUNDRAISING  
REGULATOR

Awst 2017

# Llyfr Rheolau

---

Codi arian ar y stryd

Paratowyd gan: **Cyfarwyddiaeth Safonau'r Rheoleiddiwr Codi Arian**

+44 (0)300 999 3407

[enquiries@fundraisingregulator.org.uk](mailto:enquiries@fundraisingregulator.org.uk)

[www.fundraisingregulator.org.uk](http://www.fundraisingregulator.org.uk)

# Cynnwys

---

<b>1</b>	<b>Sut i ddefnyddio Llyfr Rheolau'r Rheoleiddiwr Codi Arian .....</b>	<b>3</b>
<b>2</b>	<b>Rheolau ar gyfer Codwyr Arian .....</b>	<b>4</b>
<b>3</b>	<b>Rhestr Termau.....</b>	<b>8</b>
<b>4</b>	<b>Cydymffurfio - rolau a chyfrifoldebau .....</b>	<b>10</b>

---

# 1 Sut i ddefnyddio Llyfr Rheolau'r Rheoleiddiwr Codi Arian

Ystyr codi arian wyneb yn wyneb yw deisyfu rhodd reolaidd i elusen, trwy ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog fel arfer. Pwrpas y *Llyfr Rheolau* hwn yw amlinellu'r safonau a ddisgwylir gan godwyr arian wyneb yn wyneb sy'n gweithredu ar y stryd.

Cafodd y safonau eu datblygu'n wreiddiol gan y gymuned codi arian trwy waith y Gymdeithas Codi Arian Cyhoeddus (PFRA). Yn 2015, argymhellodd Adolygiad o Reoleiddio Codi Arian wedi'i gadeirio gan Syr Stuart Etherington fod y cyfrifoldeb dros y llyfrau rheolau yn cael ei drosglwyddo i Reoleiddiwr Codi Arian newydd i ddiogelu annibyniaeth rheoleiddio codi arian. Trosglwyddwyd y llyfrau rheolau codi arian ar y stryd ac o ddrws i ddrws i'r Rheoleiddiwr Codi Arian pan gafodd ei lansio ar 7 Gorffennaf 2016 a chyflwynwyd llyfr rheolau newydd ar gyfer codi arian ar safleoedd preifat yn Awst 2017. Mae penderfyniadau ynghylch newidiadau i'r llyfrau rheolau yn cael eu gwneud gan Fwrdd y Rheoleiddiwr Codi Arian yn seiliedig ar argymhellion ei Bwyllgor Safonau.

Mae'r rheolau yn y Llyfr Rheolau ar gyfer Safleoedd Preifat yn gyfrwymol ar godwyr arian wyneb yn wyneb sy'n gweithredu ar Safleoedd Preifat.

Mae'r rheolau yn y Llyfr Rheolau Codi Arian ar y Stryd yn gyfrwymol ar aelodau o'r system rheoli safle a weithredir gan Gyfarwyddiaeth Gydymffurfio y Sefydliad Codi Arian (IoF).

Mae'r rheolau yn y Llyfr Rheolau Codi Arian o Ddrws i Ddrws yn gyfrwymol ar godwyr arian o ddrws i ddrws.

Mae'r rheolau wedi'u grwpio'n ddau gategori:

- **Rheolau ar gyfer Codwyr Arian**, yn ymwneud ag ymddygiad codwyr arian wrth ymgysylltu â'r cyhoedd (gyda'r rhagddodiad "CA", e.e. CA1, CA2)
- **Rheolau ar gyfer Staff Gweithredol**, yn ymwneud ag arferion sefydliadol ehangach. (Gyda'r rhagddodiad "Gw", e.e. Gw1)

*DS: Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y rheolau gweithredol hynny a orchwylir gan y Rheoleiddiwr Codi Arian yn unig - mae rhestr lawr o'r rheolau ar gyfer staff gweithredol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gweinyddu dyddiaduron y Sefydliad Codi Arian a Chytundebau Rheoli Safle ar gyfer codi arian ar y stryd i'w gweld yn <http://www.institute-of-fundraising.org.uk/regulation-and-compliance/>.*

## Gofynion cyfreithiol

Ochr yn ochr â chydymffurfio â'r Rheoleiddiwr Codi Arian mae dyletswydd ar sefydliadau codi arian a chodwyr arian i sicrhau bod eu harferion codi arian a rhai unrhyw sefydliadau y maent yn llunio isgontract â nhw yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r canllawiau diweddaraf ar ddeddfwriaeth gyfredol i'w gweld yn [www.iof.org.uk](http://www.iof.org.uk) a [www.fundraisingregulator.org.uk](http://www.fundraisingregulator.org.uk).

## 2 Rheolau ar gyfer Codwyr Arian

---

### **RHEOL Gw4\*: Oriau Gweithredu ar y Stryd Safonol**

**RHAID** i godi arian **BEIDIO** â dechrau cyn 9am Llun - Sadwrn neu 10am ar ddydd Sul a gwyliau cyhoeddus, neu barhau ar ôl 7pm unrhyw ddiwrnod, neu fel y darperir ar ei gyfer fel arall mewn cytundeb Cyfarwyddiaeth Gydymffurfio'r Sefydliad Codi Arian.

**\*DS. Mae rhestr lawn ar gyfer staff gweithredol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gweinyddu Dyddiaduron Safle y Sefydliad Codi Arian a Chytundebau Rheoli Safle i'w gweld yn <http://www.institute-of-fundraising.org.uk/regulation-and-compliance/>**

### **RHEOL CA1: Ymddygiad Gorau**

Tra eu bod ar ddyletswydd, **RHAID** i godwyr arian **BEIDIO**:

- gweithredu mewn unrhyw ffordd a allai'n rhesymol achosi i aelodau'r cyhoedd ddychryn neu fod yn bryderus, yn awr neu yn y dyfodol
- gweithredu'n anonest neu'n ystrywgar, neu fynd ati'n *fwriadol* i geisio gwneud i ddarpar roddwr deimlo'n euog
- gweithredu mewn unrhyw ffordd arall y gallai unigolyn rhesymol farnu ei bod yn dwyn anfri ar yr elusen y maent yn ei chynrychioli<sup>1</sup>. Mae hyn yn cynnwys ond nid yw wedi'i gyfyngu i:
  - ysmegu neu yfed alcohol mewn dillad brand yr elusen
  - cymryd cyffuriau anghyfreithlon neu fod o dan eu dylanwad
  - ymddygiad anwedus neu ymosodol, gan gynnwys rhegi mewn dillad brand yr elusen
  - rhoi pwysau gormodol ar aelodau'r cyhoedd i roi
  - camfanteisio ar eu swydd er mwyn elwa'n bersonol (e.e. deisyfu cynnig swydd, gofyn i rywun mewn am ddê, neu geisio cael disgownt ar nwyddau neu wasanaethau)
  - unrhyw ymddygiad arall sy'n niweidio enw da'r proffesiwn codi arian, neu'r elusen sy'n cael ei chynrychioli yn llygaid y cyhoedd

### **RHEOL CA2: Rheoli Hyglwyfedd**

**RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â chofrestru unrhyw unigolyn ar unrhyw adeg os oes sail resymol ganddynt dros gredu, yn ystod eu hymwneud â'r unigolyn, ei fod mewn amgylchiadau agored i niwed sy'n golygu na all wneud penderfyniad gwybodus i roi. Gall y rhain gynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i:

- gyflyrau meddygol corfforol a meddyliol
- anabledd
- anawsterau dysgu
- adegau o straen neu bryder (e.e. galar, colli swydd)

---

<sup>1</sup> Arddibenion eglurder, ni ellir dehongli presenoldeb codwr neu godwyr arian mewn lleoliad yn 'dwyn anfri'

- hyglwyfedd ariannol (lle y gallai rhodd gan roddwr effeithio ar ei allu i ofalu'n ddigonol amdano ef / amdani hi ei hun neu'n ei adael mewn cyflwr o galedi ariannol)
- meistrolaeth o'r Saesneg
- Dylanwad alcohol neu gyffuriau

**RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â chofrestru unrhyw unigolyn o dan 18 oed.

Mae canllawiau pellach i'w cael yma:

<http://www.institute-of-fundraising.org.uk/library/treatingdonorsfairly/>

### **RHEOL CA3: Datganiadau Deisyfu**

**RHAID** i godwyr arian wneud datganiadau deisyfu sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Ym mhob achos, **RHAID** i'r datganiad datgelu (neu ddeisyfu) gael ei wneud naill ai cyn i'r arian gael ei roi gan y rhoddwr neu cyn i unrhyw fanylion ariannol sy'n berthnasol i'r trafodiad gael eu ceisio gan y codwr arian (p'un bynnag a ddaw gyntaf

Am arweiniad, gweler yma: <https://www.fundraisingregulator.org.uk/110-0-solicitation-statements/>

### **RHEOL CA4: Y Rheol 'Tri Cham'**

Pan fydd codwr arian wedi ymgysylltu ag aelod o'r cyhoedd, **RHAID** i'r codwr arian **BEIDIO** â chymryd mwy na thri cham wrth ymyl yr aelod hwnnw o'r cyhoedd neu wrth ddilyn yr aelod o'r cyhoedd hwnnw, hyd yn oed os gofynnir iddo/iddi wneud hynny.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd 'tri cham' lle mae codwyr arian yn rhwystro aelod o'r cyhoedd yn fwriadol yn cael ei ystyried yn achos o dorri Rheoli CA5 (gweler isod).

Os nad yw'r aelod o'r cyhoedd wedi sefyll yn ei unfan o fewn y tri cham a ganiateir, **RHAID** rhoi'r gorau i'r ymgais i ymgysylltu.

### **RHEOL CA5: Rhwystro'n Fwriadol**

Tra bo codwyr arian ar ddyletswydd, **RHAID** iddynt **BEIDIO** â rhwystro llwybr aelodau o'r cyhoedd yn fwriadol.

### **RHEOL CA6: Terfynu ar Unwaith**

**RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â cheisio cychwyn sgwrs neu barhau i ymgysylltu ag aelod o'r cyhoedd os yw'r unigolyn hwnnw yn dangos yn eglur - trwy air neu ystum - nad yw am iddynt ymgysylltu ag ef/hi.

### **RHEOL CA7: Ymrwymiad i Roi**

**RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** ag awgrymu i unrhyw aelod o'r cyhoedd bod yr ymgysylltiad a geisiant 'heb ymrwymiad'. Drwy ddiffiniad, mae pob math o ymgysylltu 'yn ymwneud ag ymrwymiad hirdymor' yn y pen draw.

Os yw'r dull codi arian yn cynnwys galwad dilynol (megis ceisio addewid neu godi arian testun "2 gam"), **RHAID** i godwyr arian geisio cydsyniad gan aelodau'r cyhoedd y byddant yn cysylltu â nhw am yr eildro i ddeisyfu rhodd reolaidd yn dilyn eu hymgysylltiad cychwynnol.

## **RHEOL CA8: Tryloywder Gofyn am Arian**

**RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** ag awgrymu i unrhyw aelod o'r cyhoedd nad yw'r ymgysylltiad a geisiant yn "ymwneud ag arian" neu "nid ydynt yn codi arian". Drwy ddiffiniad, mae pob math o ymgysylltu 'yn ymwneud ag arian' yn y pen draw.

## **RHEOL CA9: Dangos Pwy Ydych Chi**

**RHAID** i fathodynnau adnabod ddangos pwy yw'r codwr arian, i bwy y mae'n gweithio a rhif ffôn ar gyfer yr elusen neu'r asiantaeth berthnasol.

Er mwyn hwyluso hyn, **RHAID** i'r bathodyn adnabod:

- gael ei arddangos yn eglur
- bod ar ffurf bathodyn wedi'i osod ar y rhan uchaf ar flaen torso'r codwr arian
- ddim bod yn llai na maint cerdyn credyd
- cael ei lofnodi neu ei awdurdodi mewn rhyw ffordd arall (sêl neu stamp cwmni) gan yr Asiantaeth gyflogi a/neu elusen sy'n comisiynu

Dylai bathodyn adnabod y codwr arian fod yn hygyrch i bobl sydd â nam ar y golwg. Mae canllawiau i'w gweld yn

<https://www.abilitynet.org.uk/quality/documents/StandardofAccessibility.pdf>

## **RHEOL CA10: Adnabod o Bellter**

**RHAID** i'r cyhoedd allu adnabod codwyr arian o bellter o 5 metr. O ran dillad brand yr elusen:

- **RHAID** bod modd eu gweld a'u hadnabod
- **RHAID** iddynt **BEIDIO** â chael eu clymu o gwmpas y gwasg neu eu gorchuddio gan ddillad heb fod yn ddillad brand yr elusen neu eiddo arall, neu gael eu cuddio mewn unrhyw ffordd fel arall
- **RHAID** iddynt fod mewn cyflwr glân a da i sicrhau bod modd eu darllen a sicrhau cyfanrwydd y brand.

## **RHEOL CA11: Aelodau'r cyhoedd sydd 'ar ddyletswydd'**

**RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â mynd ati'n fwriadol i gysylltu â phobl sy'n cyflawni dyletswyddau swyddogol ar y stryd fawr, megis swyddogion mewn iwnifform neu dywyswyr teithiau.

## **RHEOL CA12: Aelodau o'r cyhoedd sy'n eistedd neu sydd mewn ciw**

**RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** ag ymgysylltu ag:

- aelodau'r cyhoedd sy'n eistedd ar gelfi stryd neu yn lle eistedd awyr agored busnes preifat
- aelodau'r cyhoedd sydd mewn ciw e.e. ar gyfer atyniadau twristiaeth, grwpiau teithiau tywys, ciwiau bws, ciwiau peiriant tynnu arian.

## **RHEOL CA13: Agosrwydd i nodweddion stryd**

**RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â bod o fewn 3 metr o:

- fynedfa siop

- croesfan cerddwyr
- peiriant tynnu arian
- mynedfa gorsaf
- stondin marchnad
- masnachwr stryd, gwerthwr, gwerthwr Big Issue neu gerddor stryd

### **RHEOL CA14: Bagiau wedi'u gadael**

**RHAID** i fagiau **BEIDIO** â chael eu gadael ar y briffordd gyhoeddus. **RHAID** i aelod o'r tîm aros o fewn 3 metr a llinell weld 'bag tîm' bob amser (os defnyddir un).

### **RHEOL CA15: Cydsyniad ar gyfer cysylltiad yn y dyfodol**

Yn ystod y broses gofrestru, os ceisir cydsyniad i'r elusen anfon gohebiaeth yn y dyfodol **RHAID** i'r codwr arian esbonio'n eglur i aelodau'r cyhoedd y gallant ddewis roi neu beidio â rhoi cydsyniad ar gyfer cysylltiad marchnata yn y dyfodol.

**RHAID** i godwyr arian sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn deall dull a phwrpas y cysylltiad y maent yn cydsynio iddo. **RHAID** i'r cydsyniad fod yn ddiamwys, cael ei roi o'ch gwirfodd, yn benodol ac yn wybodus.

**RHAID** i godwyr arian gael arwydd cadarnhaol o'r dewisiadau a wnaed, megis darparu llofnod.

### **RHEOL CA16: Parch ar gyfer busnesau lleol**

**RHAID** i godwyr arian **BEIDIO** â rhwystro, tarfu neu amharchu aelodau staff o fusnesau lleol.

## 3 Rhestr Termau

---

Mae'r adran hon yn rhoi dehongliad Cyfarwyddiaeth Gydymffurfio'r Sefydliad Codi Arian o'r termau allweddol a ddefnyddir yn y llyfr rheolau.

### "Ar ddyletswydd"

Unrhyw adeg pan ellir dangos bod unigolyn sy'n gweithio - e.e. gan ei fod yn gwisgo dillad brand, yn datgan ei fod yn gweithio i elusen benodol neu unrhyw ddull arall sy'n dangos ei fod yn gynrychiolydd elusen. Felly gall codwyr arian fod yn euog o ddwyn anfri ar eu helusen y tu allan i oriau gwaith arferol, ac ar adegau pan nad ydynt yn gweithio fel codwr arian, os ydynt yn bodloni unrhyw feini prawf sy'n dangos eu bod nhw'n gynrychiolwyr elusen.

### Arweinydd Tîm

Yr arweinydd tîm yw'r unigolyn o fewn y sefydliad codi arian sy'n goruchwyllo'r gweithgaredd yn uniongyrchol ar y safle (e.e. yn rheoli'r tîm, yn sicrhau bod safleoedd yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn ddiogel, yn sicrhau ymddygiad priodol codwyr arian/asiantau ac sy'n deall proses gwyno elusennau). Fel arall, yn achos codi arian o ddrws i ddrws, gall yr arweinydd tîm fod yr unigolyn o fewn yr asiantaeth neu'r elusen sy'n goruchwyllo'r gweithgaredd ond efallai na fydd ar y safle. Mae'n bosib na fydd yr arweinydd tîm wrthi'n codi arian bob tro.

### Codwr arian

Unigolyn sy'n codi arian neu sy'n casglu manylion cyswllt gan aelodau'r cyhoedd ('chwilota') ar gyfer elusen.

### Chwilota

Gweithgaredd lle mae manylion cyswllt aelodau'r cyhoedd yn cael eu casglu er mwyn i'r elusen gysylltu â nhw yn ddiweddarach, yn hytrach na'r manylion banc sydd eu hangen i sefydlu mandad Debyd Uniongyrchol (neu rodd ymrwymedig debyg). Mae chwilota a chwilotwyr wedi'u cynnwys os yw'r ddogfen hon yn cyfeirio at godi arian neu godwyr arian.

### Isgontractwr

Cwmni sy'n gwneud gwaith yn unol â chontract eilaidd a gytunwyd gyda'r prif gontractwr.

### "Neilltuedig"

Mae "neilltuedig" ar gyfer dibenion sefydlu capasiti newydd trwy ddulliau 'profi' yn golygu na fydd Cyfarwyddiaeth Gydymffurfio'r Sefydliad Codi Arian yn darlledu bodolaeth gweithrediadau safle perthnasol neu'n cynnig defnyddio'r safle hwnnw i aelodau eraill, ac nid oes rhaid i'r aelod sy'n ddefnyddiwr ddatgan yn gyhoeddus gweithrediadau o'r fath, oni bai a hyd nes bod **un** o'r amgylchiadau canlynol yn codi:

- mae'r cyfnod prawf wedi dod i ben
- mae'r gweithrediadau prawf mewn perygl o ysgogi cynwys ffurfiol gan y porthor sy'n gofyn i Gyfarwyddiaeth Gydymffurfio'r Sefydliad Codi Arian ymyrryd
- daw aelod arall yn ymwybodol o'r gweithgareddau yn ystod eu gweithrediadau eu hunain
- ar gyfer unrhyw reswm arall mae'r gweithgaredd yn gyhoeddus (gan gynnwys, ond nid yn unig cael sylw yn y cyfryngau, blogio beirniadol ac ati) i'r fath raddau lle, yn ôl



disgresiwn absoliwt Cyfarwyddiaeth Gydydffurfio'r Sefydliad Codi Arian, mae'r mater yn gofyn am ymyrraeth Cyfarwyddiaeth Gydydffurfio'r Sefydliad Codi Arian

### **"Rhwystro"**

Unrhyw weithredu bwriadol sy'n achosi i unigolyn:

- aros yn anwirfoddol
- newid cyfeiriad yn sydyn er mwyn mynd heibio'r codwr arian a pharhau â'i daith

Nid yw rhwystro yn gymwys i bobl sy'n dewis newid cyfeiriad ei daith (trwy groesi'r ffordd, er enghraifft) er mwyn peidio ag ymgysylltu â chodwr arian.

### **Ymgysylltu**

Unrhyw ymgais i ymgysylltu ag aelod o'r cyhoedd gyda'r bwriad o ddeisyfu rhoddion Debyd Uniongyrchol neu fanylion cysylltu.

### **"Yn Fwriadol"**

Yn fwriadol, yn wahanol i ddamweiniol, neu wedi'i achosi gan weithredoedd eraill (e.e. masnachwr stryd sy'n symud eu stondin yn fwriadol tuag at y tîm, gan felly leihau eu lle gweithredu).

## 4 Cydymffurfio - rolau a chyfrifoldebau

---

Os yw'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn derbyn honiad gan aelod o'r cyhoedd bod codwr arian wedi gweithredu'n groes i'r llyfr rheolau hwn neu'r Cod Ymarfer Codi Arian, bydd yr achwynydd yn cael ei ystyried gan y Rheoleiddiwr gan ddilyn y broses a amlinellir ym mholisi Cwynion, Ymchwiliadau ac Unioni Cam y Rheoleiddiwr. Mae disgrifiad llawnach o sut mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn gweithio gyda'r Sefydliad Codi Arian i sicrhau arferion codi arian da i'w gweld yn y [Memorandwm Dealltwriaeth](#).